# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 3

SICRHAU ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL A'U CYLLIDO

*Cyrff sy'n cydlafurio: cydsyniad*

PROSPECTIVE

**109 Cydsyniad i daliadau i gyrff sy'n cydlafurio**

(1) Caiff y Comisiwn roi cydsyniad at ddiben adran 88(4), 89(5), 97(5), 104(4) neu 105(5) yn gyffredinol neu mewn perthynas â thaliad penodol neu gorff penodol sy'n cydlafurio.

(2) Caiff y Comisiwn roi cydsyniad at ddiben unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hynny yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Rhaid i'r amodau gynnwys gofyniad bod y person y mae adnoddau ariannol yn cael eu darparu neu eu sicrhau iddo o dan adran 88, 89, 97, 104 neu 105 (yn ôl y digwydd) yn gwneud trefniadau at ddiben sicrhau bod yr adnoddau a delir i gorff sy'n cydlafurio yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian.

(4) Caiff y Comisiwn dynnu'n ôl, atal dros dro neu amrywio cydsyniad a roddir at ddiben unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hynny, a phan fo cydsyniad wedi ei roi yn gyffredinol, caiff wneud hynny yn gyffredinol neu mewn perthynas â thaliad penodol neu gorff penodol sy'n cydlafurio.

(5) Cyn tynnu'n ôl, amrywio neu atal dros dro gydsyniad, rhaid i'r Comisiwn roi hysbysiad i'r person y mae adnoddau ariannol yn cael eu darparu neu eu sicrhau iddo o dan adran 88, 89, 97, 104 neu 105 (yn ôl y digwydd).

*__Statws__ Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
*__Newidiadau i ddeddfwriaeth:__ Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 109. (See end of Document for details)*

(6) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

(a) y rhesymau dros fwriadu tynnu'n ôl, amrywio neu atal dros dro gydsyniad,

(b) y cyfnod pan ganiateir i sylwadau ynghylch y camau gweithredu arfaethedig gael eu cyflwyno, ac

(c) y ffordd y caniateir i'r sylwadau hynny gael eu cyflwyno.

(7) Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â'r hysbysiad wrth benderfynu pa un ai i dynnu'n ôl, amrywio neu atal dros dro gydsyniad.

(8) Nid yw'r gofynion yn is-adrannau (5) i (7) yn gymwys os yw'r Comisiwn wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol tynnu'n ôl, amrywio neu atal dros dro gydsyniad cyn y byddai'n ymarferol cydymffurfio â'r gofynion hynny.

(9) Rhaid i'r Comisiwn gadw cydsyniad a roddir at ddiben adran 88(4), 89(5), 97(5), 104(4) neu 105(5) o dan adolygiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 109 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 109.